Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Iau, 13 Ionawr 2022

Amser: 09.15 – 14.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12571

O bell

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Jayne Bryant AS (Cadeirydd) James Evans AS Laura Anne Jones AS Ken Skates AS Buffy Williams AS Carolyn Thomas AS (yn lle Buffy Williams AS) Sioned Williams AS
Tystion:	Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Zenny Saunders, Llywodraeth Cymru David Morris, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Naomi Stocks (Clerc) Tom Lewis-White (Ail Glerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) Sian Thomas (Ymchwilydd) Phil Boshier (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Sioned Williams AS i'r Pwyllgor, gan gymryd lle Siân Gwenllian AS. Diolchodd y Cadeirydd i Siân am ei chyfraniad amhrisiadwy i'r Pwyllgor ers dechrau'r Senedd hon, yn ogystal â'i gwaith ar y Pwyllgor a'i rhagflaenodd.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Buffy Williams AS o eitem 5 ymlaen, a dirprwyodd Carolyn Thomas AS.

1.5 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Sioned Williams AS fod ei gŵr yn cael ei gyflogi gan Brifysgol Abertawe a'i fod yn Aelod o'r Undeb Prifysgolion a Cholegau ac yn gymrawd o'r Gymdeithas Ddysgedig.

2 Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 11

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- Gwybodaeth gymharol am gyfansoddiad a'r gwahanol fathau o aelodaeth Bwrdd mewn sefydliadau tebyg i'r Comisiwn;
- Rhagor o wybodaeth am y safbwynt diweddaraf ar y pŵer i ddiddymu Corfforaethau Addysg Uwch;
- Rhagor o wybodaeth am y materion sy'n codi o'r ddeiseb ar y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig;
- Rhagor o wybodaeth am sut y gall y Bil gefnogi rhyddid academaidd i academyddion unigol, yn hytrach na'r amddiffyniadau ehangach yn y Bil ar gyfer rhyddid academaidd sefydliadol;

- Rhagor o wybodaeth am sut y bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Comisiwn a chyrff cysylltiedig eraill yn cydweithio mewn perthynas â'u rolau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg; ac
- A roddwyd cydsyniad ar gyfer adran 128.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4, eitem 7, eitem 8, eitem 9 ac eitem 10 ar agenda'r cyfarfod.

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) - trafod y dystiolaeth a'r materion allweddol

4.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol. Bydd adroddiad drafft yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf ar 10 Chwefror.

5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022 - 23 - sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

5.2 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu nodyn gyda data yn nodi gwariant penodol ar blant a phobl ifanc ar draws ei phortffolio (e.e. ar wasanaethau pediatrig a gwasanaethau iechyd meddwl y glasoed) i'r graddau y cesglir y wybodaeth honno gan y GIG/Llywodraeth neu mae'r wybodaeth ar gael iddynt.

5.3 Cytunodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant sy'n bwydo i mewn i benderfyniadau polisi a adlewyrchir yn y Gyllideb Ddrafft.

6 Papurau i'w nodi

6.1 Cafodd y papurau eu nodi.

7 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - trafod y dystiolaeth

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

8 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr - ystyried cylch gorchwyl drafft yr ymchwiliad

8.1 Yn amodol ar wneud mân newidiadau, cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad. Caiff papur dull gweithredu ei drafod yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.

9 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

9.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chytunodd i ysgrifennu ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i gael rhagor o wybodaeth ac i ofyn am wybodaeth gan randdeiliaid penodol.

10 Ystyried y dull o ran hyfforddiant ar Hawliau Plant.

10.1 Cytunodd y Pwyllgor i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Hawliau Plant ar 10 Chwefror.